Independent Monitoring Boards

# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEM Caerdydd

## Ar gyfer blwyddyn adrodd 1 Medi 2020 – 31 Awst 2021

**Cyhoeddwyd Mawrth 2022**

national preventive mechanism

# Cynnwys

**Adrannau rhagarweiniol 1 - 3**

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o’r sefydliad | 4 |
| 3. | Crynodeb gweithredol | 5 |

**Adrannau tystiolaeth 4 – 7**

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Diogelwch | 10 |
| 5. | Triniaeth heb fod yn greulon | 12 |
| 6. | Iechyd a lles | 17 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 20 |

**Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol**

| | | |
|---|---|---|
| | Cefnogaeth y Bwrdd | 25 |
| | Ceisiadau i’r Bwrdd Monitro Annibynnol | 26 |

# Adrannau rhagarweiniol 1 - 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae CEM Caerdydd wedi'i leoli yng nghanol y ddinas. Mae'n garchar hyfforddi lleol categori B i ddynion ac mae'n gwasanaethu de ddwyrain Cymru a chymoedd de Cymru i raddau helaeth, er bod nifer cynyddol o garcharorion yn cael eu trosglwyddo o garchardai yn Lloegr. Mae'n darparu'n bennaf ar gyfer carcharorion sy'n bwrw dedfrydau tymor byr, carcharorion remand a charcharorion sy'n disgwyl dedfryd. Mae gan y carchar adeilad arferol ardystiedig o 534 a chapasiti gweithredol o 779, gyda'r rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu rhoi mewn dau i bob cell. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau Covid-19 cychwynnol, roedd gan y carchar gapasiti gweithredu wedi'i addasu o 749: cafodd hyn ei gynyddu i 765 ddechrau mis Awst 2021 a dychwelodd i'r capasiti gweithredu arferol erbyn dechrau mis Medi 2021.

Agorodd y carchar yn 1832, ac mae rhan fawr o'r llety'n dal i gynnwys tair asgell o'r oes Sioraidd. Fe wnaeth rhaglen adnewyddu fawr yn 1996 arwain at agor tair asgell llety newydd. Mae'r carchar hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau eraill, gan gynnwys campfa, cyfres o weithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008 ac mae'n cynnwys 20 gwely.

Mae'r drefn arferol yn cynnwys addysg amser llawn, cyflogaeth yng ngweithdai'r carchar, a chyrsiau hyfforddi. Mae uned ailsefydlu yno hefyd, sy'n cynnig cwrs datblygiad cymdeithasol personol a chyrsiau seiliedig ar waith i garcharorion.

Mae amrywiaeth o ddarparwyr cyhoeddus a masnachol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y carchar. Caiff gwasanaethau iechyd eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac fe gaiff dysgu a sgiliau eu darparu gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, ond cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe gyflawnir y gwaith cynnal a chadw ar y safle gan Amey. Darparwyd gwasanaethau ailsefydlu gan Ymddiriedolaeth St Giles, Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC), ond daeth y gwasanaethau hyn dan gontract y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) ym mis Mehefin 2021. Mae gwasanaethau eraill sy'n dibynnu ar ddarparwyr o'r tu allan i'r carchar yn cynnwys gwasanaethau hebrwng ac adsefydlu cymunedol. Mae nifer o sefydliadau eraill, fel St Giles Wise, Forward Trust, ac Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT), hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau.

# 3. Crynodeb gweithredol

## 3.1 Cefndir yr adroddiad

Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd i gasglu gwybodaeth a thrafod cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn. Felly, mae'r Bwrdd wedi gwneud ei orau i ymdrin â chymaint â phosib yn yr amgylchiadau anodd hyn, ond yn anochel mae llai o fanylder a thystiolaeth ategol na'r arfer. Mae'r Gweinidogion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn. Mae gwybodaeth reolaidd yn cael ei chasglu'n benodol am ymateb y carchar i'r pandemig, ac mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu ynghyd ar lefel genedlaethol.

Roedd y Bwrdd yn gallu darparu ymweliadau 'wyneb yn wyneb' cyfyngedig â'r carchar o fis Medi 2020 ymlaen; cynyddodd hyn yn raddol dros y flwyddyn adrodd. Ym mis Ebrill 2021, er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o brofiad carcharorion o amodau, cynhaliodd y Bwrdd arolwg. Anfonwyd holiaduron at bob dyn, ac eithrio'r rheini yn yr uned cohort dros dro (RCU). Cawsom 149 o ymatebion.

Er gwaethaf unrhyw faterion a nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol sydd wedi'i leoli yng Ngharchar Caerdydd yn canmol rheolwyr a staff y sefydliad am barhau i ddarparu amgylchedd gweddol ddiogel a dyngarol i'r dynion yn eu gofal.

## 3.2 Prif farnau

### Pa mor ddiogel yw'r carchar?

Cred y Bwrdd fod Carchar Caerdydd yn garchar gweddol ddiogel. Mae'r gred hon yn seiliedig ar y ffaith bod y defnydd o rym a'r achosion o hunan-niweidio wedi gostwng eleni. Er bod pedair marwolaeth, credir mai dim ond un a oedd wedi'i hachosi gan yr unigolyn ei hun (paragraffau 4.5.1 a 4.2.1). Roedd lefel y digwyddiadau treisgar yn debyg iawn i lefel isel y flwyddyn flaenorol (para 4.3.1). Yn ogystal â hyn, awgrymodd yr arolwg a gwblhawyd gan y Bwrdd fod 58% o ddynion yn teimlo'n ddiogel yn y carchar, er bod y ganran hon wedi gostwng i 46% ar gyfer pobl nad oeddent yn gweithio.

### Pa mor deg a dyngarol gaiff carcharorion eu trin?

Barn y Bwrdd yw bod y rhan fwyaf o ddynion yng Ngharchar Caerdydd yn cael eu trin yn deg ac yn drugarog. Fodd bynnag, mae effeithiau'r drefn gyfyngedig wedi cael effaith andwyol, yn ein barn ni, ar y berthynas rhwng dynion a swyddogion (para 5.3.1). Mae hyn wedi'i waethygu gan y pwysau staffio y mae swyddogion a staff wedi gorfod gweithio yn unol â nhw ar adegau yn ystod y flwyddyn (para 5.3.2). Fodd bynnag, rhaid nodi bod dynion wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am staff (para 5.3.1).

Gwnaethpwyd ymdrechion gan y carchar i sicrhau nad yw dynion yn cael eu dal yn yr uned gofal a gwahanu (CSU) yn ddiangen (para 5.2.2).

Mae oed yr adeilad yn achosi rhai problemau (paragraffau 5.1.4 a 5.1.5). Mae materion staffio yn y ganolfan fusnes yn cael effaith andwyol ar y drefn gwyno (para

5.7.1). Yn olaf, mae rhai pryderon o hyd ynghylch y defnydd anghymesur o rym ar garcharorion ifanc a phobl o gefndir Caribïaidd neu Garibïaidd cymysg (para 5.4.5). Hefyd, mae'r Bwrdd yn dymuno tynnu sylw eto at y nifer anghymesur o ddynion o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) sydd wedi'u labelu'n beryglus (para 5.4.4).

**Pa mor dda mae anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu diwallu?**

Gwelwyd gwelliant yn y staffio ym maes gofal iechyd corfforol a gofal iechyd meddwl. Cred y Bwrdd fod hyn wedi arwain at wella'r gwasanaeth a gynigir. Parhaodd y tîm gofal iechyd corfforol i weithredu gwasanaeth er gwaethaf y pwysau ychwanegol a roddwyd arnynt gan y pandemig (paragraffau 6.1.1, 6.1.3 a 6.1.4) ac mae'r tîm iechyd meddwl wedi ehangu ei wasanaethau (para 6.2.1).

Yn anffodus, roedd rhai eithriadau i hyn, yn enwedig o ran gwasanaethau fferylliaeth (para 6.1.4) ac yn ystod gwasanaethau deintyddol ac optegwyr y cyfnod clo (paragraffau 6.1.5 a 6.1.6). Ar ben hynny, nodwyd bod angen oriau Meddyg Teulu ychwanegol (para 6.1.5)

Fel rhan o'r broses o ddarparu trefn ddyngarol yn ystod y pandemig, ym mis Gorffennaf 2021 roedd y carchar yn gallu cynyddu'r amser allan o'r gell i ddwy awr y dydd (para 6.4.1)

**Pa mor dda mae carcharorion yn symud ymlaen tuag at ailsefydlu llwyddiannus?**

Drwy gydol y flwyddyn adrodd, darparodd yr adran addysg a sgiliau dysgu gyfleoedd ar lefel is, gan agor addysg a hyfforddiant dim ond wrth i gyfyngiadau Covid-19 ganiatáu (paragraffau 7.1.1, 7.1.7 a 7.2.1). Roedd hyn, yn ddealladwy, yn effeithio ar y cynnydd tuag at ailsefydlu llwyddiannus.

Roedd rhai problemau cychwynnol pan ddaeth staff y CRC dan gontract gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac mae gwasanaethau ailsefydlu y tu allan i'r carchar wedi cael eu rheoli gan alwadau ffôn gydag asiantaethau eraill (para 7.5.3).

Roedd llety yn dal yn broblem i ddynion sy'n gadael heb gartref sefydlog ac er bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu cymorth tan fis Ebrill 2022, mae diffyg tai fforddiadwy ar gael o hyd (para 7.5.5).

Yn gadarnhaol, gan fod cyfran fawr o garcharorion yng Ngharchar Caerdydd ar remand, cafodd cynllun gwybodaeth mechnïaeth newydd ei dreialu, ei reoli gan aelod o staff a defnyddio cymheiriaid mechnïaeth ar yr RCU (para 7.3.3).

## 3.3 Prif feysydd datblygu

***I'R GWEINIDOG***

Mae'r Bwrdd yn bryderus am y cynnydd eleni mewn dynion y mae angen eu trosglwyddo i sefydliadau iechyd meddwl (para. 6.2.4). Rydym wedi nodi argymhellion adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin Iechyd meddwl mewn

carchardai ym mis Medi 2021, yn enwedig yr argymhelliad y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r GIG gyflymu cynlluniau i gynyddu argaeledd gorchmynion Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol, felly mae'r gorchmynion hyn ar gael i ddedfrydwyr ym mhob rhan o Gymru a Lloegr erbyn 31 Mawrth 2023.'[1] Er ein bod yn sylweddoli bod yr argymhelliad hwn yn ymwneud â Lloegr, gofynnwn a oes unrhyw drafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhelliad hwn.

Mae gan y Bwrdd bryderon o hyd am ddynion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa ar IS91 a'u mynediad at gynrychiolwyr y Swyddfa Gartref. Codwyd y mater hwn yn y ddau adroddiad diwethaf. Ym mis Mawrth a mis Ebrill 2021, dechreuodd un dyn a oedd yn cael ei gadw dan IS91 wrthod bwyd oherwydd iddo gael ei gadw yn y ddalfa ar ôl ei ddyddiad rhyddhau. Er eu bod yn deall y pwysau ar ganolfannau symud mewnfudwyr (IRC), nid oes gan ddynion sy'n cael eu cadw yn y carchar fynediad at yr un cyfleusterau â'r rheini mewn IRC. Byddai'r Bwrdd yn gofyn i'r mater hwn gael ei godi eto gyda'r Swyddfa Gartref.

## *I LYWODRAETH CYMRU*

Mae gan y Bwrdd ddau bryder ynghylch gofal iechyd y byddem yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd eu hystyried gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Mae'r ddau'n ymwneud â staffio: y cyntaf yw'r broblem barhaus gyda diffyg darpariaeth i fferyllwyr, a all arwain at ddod â fferyllwyr locwm i mewn ar sail argyfwng ac sy'n effeithio ar broses gynllunio'r tîm yn eu hymdrechion i wella'r gwasanaeth. Nodwyd yr anhawster hwn hefyd y llynedd (para 6.1.4).

Codwyd yr ail gan y cyfarwyddwr clinigol dros dro sydd wedi nodi'r angen am fwy o oriau meddygon teulu i ddiwallu anghenion iechyd y dynion.

Roedd y Bwrdd yn falch o glywed bod cymorth i ddynion sy'n gadael y carchar heb lety sefydlog yn cael ei ymestyn tan fis Ebrill 2022. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod diffyg llety addas ar gael, yn enwedig mewn rhai ardaloedd, a byddai diddordeb gennym weld pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd, ar y cyd ag awdurdodau lleol, i fynd i'r afael â'r broblem hon (para 7.5.5).

## *I'R GWASANAETH CARCHARDAI*

Mae staff a dynion yng Ngharchar Caerdydd wedi ymdrechu i gadw'r carchar yn lân ac o safon dda yn ystod y pandemig. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud ar adnewyddu esgyll. Fodd bynnag, mae gan rai o'r esgyll hŷn broblemau bob blwyddyn gyda gwresogi, problemau gyda chael gafael ar sianeli teledu ac mae'r llygod mawr yn cael effaith ar y seilwaith (paragraffau 5.1.4, 5.15 a 5.3.5). Mae rhai o'r problemau hyn (y system wresogi a'r sianeli teledu) wedi bod yn broblem ers sawl blwyddyn ac mae'r carchar ar y cyd ag Amey wedi ceisio datrys y problemau. Byddai'r Bwrdd yn gofyn i'r gwasanaeth ystyried pa atebion tymor hir y gellid eu canfod.

Ochr yn ochr â'r seilwaith mae'r pryder sydd gan y Bwrdd yng nghyswllt mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rheini sydd â phroblemau symudedd i rai

[1] Iechyd meddwl yn y carchar – Pwyllgor Cyfiawnder – Tŷ'r Cyffredin (parliament.uk)

rhannau o'r carchar (para 5.4.7) Rydym yn ymwybodol bod adnewyddu un asgell yn gwneud rhai addasiadau i helpu mynediad, ond mae anawsterau'n parhau o hyd i ddynion nad ydynt efallai'n cael llety yn yr asgell honno.

Mae'r Bwrdd yn falch bod y drefn yng Ngharchar Caerdydd yn llacio ac yn sylweddoli bod llacio'r drefn yn dibynnu ar gyfraddau heintio. Fodd bynnag, o'n gwaith yn monitro'r carchar, credwn fod dynion yn gweld bywyd yn gynyddol anodd o dan y drefn hon (paragraffau 6.2.3 a 7.2.5) a byddem yn gobeithio y gellid ystyried dychwelyd i'r drefn arferol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, yn unol â phrotocolau Covid-19.

Mae'r Bwrdd yn bryderus bod defnyddio camerâu corff (BWC) yn cael ei effeithio gan yr angen i wasanaethu a newid camerâu. Deallwn y bydd camerâu newydd yn cael eu gosod yng Ngharchar Caerdydd ym mis Chwefror 2022: rydym yn gobeithio na fydd hyn yn cael ei ohirio ymhellach (para 4.5.2).

***I'R LLYWODRAETHWR***

Rydym wedi bod yn bryderus ynghylch y pwysau staffio y mae'n ymddangos bod yr hwb busnes wedi'i wynebu, sydd yn ei dro yn effeithio ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y dynion. Felly, byddem yn gofyn a oes unrhyw ffordd o sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael i ddelio â diffygion (para 5.7.1).

Nodwyd ein pryder yn yr adroddiad diwethaf yng nghyswllt nifer anghymesur y carcharorion BAME a labelwyd yn rhai peryglus o hyd. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd wedi sylwi ar ganfyddiad ymysg carcharorion BAME bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn wrth ddyrannu gwaith ac addysg a byddem yn gofyn am ystyried ymchwilio ymhellach i unrhyw wahaniaethu ymddangosiadol (paragraffau 5.4.3 a 5.4.4).

### 3.4 Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

| Materion o'r adroddiad diwethaf | Y cynnydd a wnaed ers yr adroddiad diwethaf |
|---|---|
| Mae hunan-niweidio yn parhau yn bryder mawr. | Er bod unrhyw hunan-niweidio yn parhau i beri pryder, cafwyd gostyngiad o 25.2% yn nifer yr achosion yn ystod y flwyddyn adrodd hon. |
| Cyfyngedig oedd y cysylltiad rhwng y carcharorion a'r ceiswyr lloches cenedlaethol o dramor â chynrychiolydd y Swyddfa Gartref. | Roedd hyn yn dal yn broblem yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gydag ymweliadau'n cael eu hatal pan oedd cyfraddau heintio Covid-19 yn uwch. |
| Mae prinder staff yn y tîm iechyd meddwl a gofal iechyd yn gyffredinol wedi lleihau gallu'r timau i ddarparu gwasanaeth cyson. | Gwelwyd gwelliant aruthrol yn y lefelau staffio ym maes gofal iechyd ac iechyd meddwl. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd yr holl sesiynau meddygon teulu wedi cael eu llenwi, doedd dim swyddi gwag ym maes gofal iechyd ac roedd y tîm iechyd meddwl ar fin llenwi swyddi gwag. |

| | |
|---|---|
| Roedd llety ar ôl rhyddhau yn dal yn broblem. | Er bod y Senedd wedi cytuno ar gyllid ychwanegol tan fis Ebrill 2022, mae prinder tai o hyd mewn sawl ardal. Felly, mae llety ar ôl rhyddhau yn dal yn broblem. |
| Oherwydd y pandemig, bu’n rhaid rhoi’r gorau i gyfleoedd hyfforddi cadarnhaol a chafodd addysg ei chwtogi’n ddifrifol. | Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y sefyllfa hon wedi gwella ychydig ond mae’r niferoedd a’r parhad yn dal yn ddibynnol ar risg Covid-19. |
| Codwyd pryderon ynghylch nifer y carcharorion o’r tu allan i Gymru sy’n cael eu derbyn i Garchar Ei Mawrhydi Caerdydd a’r anawsterau a achosodd hyn gyda system addysg a gofal iechyd ddatganoledig. | Er gwaethaf y pandemig, roedd carcharorion o’r tu allan i’r ardal yn dal i gael eu derbyn yng Ngharchar EM Caerdydd. |
| Roedd gan y Bwrdd bryderon ynghylch nifer y carcharorion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) sy’n cael eu labelu fel carcharorion peryglus a’r rhai o darddiad du a hil gymysg Caribïaidd sydd wedi cael eu cadw yn yr Uned Diogelwch Cymunedol. | Roedd y carchar yn dal i roi carcharorion BAME mewn categori peryglus ar sail anghymesur.<br>Rydym wedi cael gwybod nad yw’r rhai o darddiad du a hil gymysg Caribïaidd wedi cael eu cadw yn y CSU ar sail anghymesur. |
| Gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion o ddefnyddio grym, a oedd yn duedd a oedd yn peri pryder. | Bu gostyngiad o 124 yn nifer yr achosion o ddefnyddio grym yn ystod y flwyddyn adrodd hon. |

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

4.1.1 Mae unrhyw hunan-niweidio yn peri pryder; fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn falch o weld gostyngiad o 25.2% yn nifer yr achosion yn y flwyddyn adrodd hon o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol (712 o achosion yn 2019/20 o'i gymharu â 533 o achosion yn 2020/21). Roedd y gostyngiad cymharol mwyaf yn y chwe mis rhwng mis Medi 2020 a mis Chwefror 2021. Yn y flwyddyn flaenorol, nid oedd trefn gyfyngedig ar yr adeg hon. Wrth gymharu nifer yr achosion ers i'r drefn gyfyngedig gael ei rhoi ar waith ym mis Mawrth 2020, mae'r lefel hunan-niweidio wedi aros ar lefel debyg, sef gostyngiad o tua 40% o lefelau'r drefn cyn iddi fod yn gyfyngedig. Llafnau rasel yw'r arf mwyaf cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio i hunan-niweidio o hyd, a thoriadau i'r breichiau yw'r dull mwyaf cyffredin. Iechyd meddwl, pryderon domestig/materion teuluol a hwyliau isel oedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros hunan-niweidio.

4.1.2 Wrth i'r drefn ddod yn fwy agored, bydd y Bwrdd yn monitro'r effaith. Roedd nifer yr achosion o hunan-niweidio mynych yn cael eu sgiwio gan y rheini oedd wedi hunan-niweidio fwy nag unwaith. Priodolwyd y 533 o achosion o hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn adrodd hon i 314 o ddynion. Yn ail hanner y flwyddyn adrodd, roedd 274 o achosion gan 151 o ddynion.

4.1.3 Bu pedair marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd tri o'r dynion yn yr ysbyty adeg eu marwolaeth oherwydd salwch a gwelwyd bod un farwolaeth wedi'i hachosi gan yr unigolyn ei hun. Mae un farwolaeth wedi'i chadarnhau oherwydd niwmonitis Covid-19. Mae cwestau'n aros am y tair marwolaeth arall. Ym mhob achos, cynigiwyd cefnogaeth i'r staff a'r dynion a chafwyd cysylltiadau priodol gyda'r teuluoedd. Mae'r duedd i sicrhau'r amgylchedd mwy diogel hwn i'w chroesawu ers y flwyddyn adrodd flaenorol (1 Medi 2019 i 31 Awst 2020), lle cafwyd pedair marwolaeth, a chadarnhawyd bod tair ohonynt wedi'u hachosi gan yr unigolion eu hunain.

### 4.2 Trais a lleihau trais, hunanynysu

4.2.1 Mae trais yng Ngharchar Caerdydd wedi aros ar lefel gymharol isel gydag 11 i 12 o ddigwyddiadau treisgar wedi'u cofnodi bob mis, cyfanswm o 135, sy'n lefel debyg i'r flwyddyn flaenorol. Roedd hanner y digwyddiadau hyn yn ymwneud ag ymladd gyda chyfanswm o 63 o achosion o ymladd yn ystod y flwyddyn, roedd 30 yn ymwneud â charcharorion yn ymosod ar garcharorion a 42 yn ymosod ar staff. Er nad oes patrwm amser amlwg o ran ymladd neu garcharor yn ymosod ar garcharor arall, mae'n amlwg bod llai o ymosodiadau ar staff bob mis rhwng mis Hydref 2020 a mis Chwefror 2021, a oedd yn gyfnod o gyfradd heintio Covid-19 gymharol uchel yn y carchar a'r gymuned.

**4.2.2** Roedd dynion ag ymddygiad heriol yn dal i gael eu rheoli drwy gynlluniau cymorth herio ac ymyrryd. Roedd cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal yn rheolaidd.

### 4.3 Defnyddio grym

**4.3.1** Mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod defnyddio grym yn y sefydliad wedi gostwng o 772 yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf i 648. Llwyddwyd i gynnal y gostyngiad hwn yn ystod y cyfnod pan oedd y carchar yn agor y drefn. Yn ystod y tri mis pan oedd cyfyngiadau Covid-19 ar eu huchaf (Tachwedd 2020 i Ionawr 2021), cofnodwyd 179 o achosion o ddefnyddio grym.

**4.3.2** Ymddengys bod y defnydd o gamerâu corff a wisgir yn gwella'n barhaus: fodd bynnag, mae'r defnydd bellach yn cael ei lesteirio gan y cynnydd yn nifer y camerâu sydd wedi torri, sy'n golygu bod staff naill ai'n methu tynnu llun ohonynt, neu nad ydynt ar waith yn ystod digwyddiad. Mae'r oedi cyn eu disodli bellach wedi symud i fis Chwefror 2022 ac nid oedd angen eu gwasanaethu yn y cyfamser tan fis Tachwedd 2021.

**4.3.3** Mae'r aelodau sy'n mynd i gyfarfodydd defnyddio grym bob wythnos wedi nodi ei bod yn ymddangos bod cynnydd yn y defnydd o 'ystafelloedd aros' i reoli sefyllfa, er mai'r defnydd o 'reolaeth ac ataliaeth' yw'r dull rheoli a ddefnyddir amlaf o hyd.

### 4.4 Camddefnyddio sylweddau

**4.4.1** Yng nghanol mis Medi 2020, cyflwynwyd sganiwr corff fel rhan o'r broses dderbyn a oedd, ynghyd â'r gostyngiad mewn ymweliadau cymdeithasol, yn lleihau faint o gyffuriau a oedd yn dod i mewn i'r carchar. Daethpwyd o hyd i 172 o gyffuriau yn ystod y flwyddyn adrodd hon, a sbeis, canabis a quetiapine yw'r darganfyddiadau mwyaf cyffredin bob mis. Mae cynnydd o 18% wedi bod yn y chwe mis diwethaf o'i gymharu â'r chwe mis cyntaf wrth i'r drefn agor, mae ymweliadau wedi ailddechrau ac mae cyflogaeth/addysg yn agor, gan roi mwy o gyfleoedd i gaffael a dosbarthu ar draws poblogaeth y carchardai.

## 5. Triniaeth deg a dyngarol

### 5.1 Llety, dillad, bwyd

**5.1.1** Roedd monitro ffabrig CEM Caerdydd yn her ar gyfer llawer o'r flwyddyn adrodd wrth i ymweliadau'r aelodau gael eu cwtogi oherwydd Covid-19. Fodd bynnag, roedd monitro o bell drwy alwadau ffôn a rhaglenni wythnosol yn caniatáu trafod y prif faterion o leiaf. Neilltuwyd aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol i ffonio ardaloedd a oedd wedi'u trefnu ymlaen llaw. Cyn y cyfyngiadau symud, roedd y carchar yn cael ei addurno ac roedd hyn yn parhau yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd yn amlwg sut roedd hyn yn gwella ymddangosiad y carchar

**5.1.2** Pan ailddechreuodd ymweliadau gan y Bwrdd Monitro Annibynnol, roedd dau faes a oedd wedi achosi pryder yn y gorffennol wedi cael eu gwella'n aruthrol. Roedd yr uned orfodol ar gyfer profi am gyffuriau wedi cael ei nodi fel un fudur, mae'r wrinal yn fudr ac wedi'i staenio ac mae pibellau agored y mae angen eu newid yn ddirfawr. Gan fod swyddog yn eistedd wrth fwrdd wrth ymyl yr wrinal yma, nid oedd hyn yn dderbyniol nac yn iach. Roedd yn braf adrodd bod yr wrinal, y tanc dŵr a'r pibellau gwastraff i gyd wedi cael eu hadnewyddu, bod yr ystafell wedi'i phaentio, a bod sgrin gwyleidd-dra fach wedi'i gosod yn awr fel bod modd defnyddio'r wrinal yn barchus.

**5.1.3** Roedd y pum bloc cawod ar yr uned cohort dros dro wedi cael eu gadael i ddirywio cyn ac yn ystod rhan gyntaf y cyfnod clo, ac yn benodol roedd y waliau, y teils a'r nenfydau budr a oedd yn cynnwys sborau llwydni a baw mewn cyflwr ofnadwy. Wrth ddychwelyd yn awr mae gwelliant aruthrol wedi bod gan fod waliau a chyflwr cyffredinol y cawodydd yn dda. Fodd bynnag, nodir bod y nenfydau'n dal angen eu glanhau, eu diheintio a'u peintio er mwyn cael gwared â'r llwydni du trwchus a gweladwy iawn.

**5.1.4** Yn ystod y misoedd oerach, mae'r gwres weithiau wedi methu gweithio'n iawn, yn enwedig yn asgell B a F, sydd wedi'u lleoli yn rhan hŷn y carchar. Mae hon yn broblem flynyddol. Ym mis Chwefror, ceisiodd y staff wneud iawn drwy roi blancedi ychwanegol i'r dynion.

**5.1.5** Drwy gydol y flwyddyn, gwelwyd llygod mawr ar dir y carchar ac ymddangosodd llygod ar lawr gwaelod yn asgell hŷn y carchar ym mis Ebrill. Am tua mis yn ystod 2021, nid oedd gan y gaplaniaeth, y gampfa ac un asgell (i gyd yn rhan hŷn y carchar) fynediad at rwydwaith cyfrifiadurol gan fod llygod mawr, i bob golwg, wedi bwyta drwy'r ceblau. Gwnaethpwyd ymdrechion cyson i ddileu'r problemau hyn, ond nid yw'r broblem wedi'i datrys.

**5.1.6** Yn unol â holl rannau eraill y carchar, cafodd swyddfa'r Bwrdd Monitro Annibynnol ei haddurno ym mis Medi, sydd wedi rhoi amgylchedd gwell i'r aelodau weithio ynddo.

**5.1.7** Yn yr arolwg a gwblhawyd ym mis Ebrill 2021, dim ond 34% o'r ymatebwyr oedd yn cytuno â'r datganiad bod 'bwyd y carchar yn dda'; nododd nifer nad oedd y dognau'n ddigon mawr, ac nad oedd bwyd yn cael ei goginio'n iawn. Er gwaethaf y sylwadau hyn, dim ond wyth cais a gafodd y Bwrdd am fwyd yn ystod y cyfnod adrodd, a dywedodd un ymateb i'r arolwg:

*'maen nhw'n rhoi papur i ni i ddewis beth rydyn ni ei eisiau ac maen nhw'n rhoi'r hyn maen nhw ei eisiau i ni'.*

## 5.2 Gwahanu

5.2.1 Mae'r CSU wedi'i lleoli mewn rhan gweddol hygyrch o'r carchar sy'n galluogi swyddogion i drosglwyddo carcharorion o ardaloedd eraill yn gymharol rwydd.

5.2.2 Yn ôl adroddiadau llywodraethwyr dyletswydd ac adroddiadau wythnosol y Bwrdd, mae nifer dyddiol y carcharorion yn yr uned wedi bod tua tri neu bedwar ar unrhyw un adeg. Cafodd nifer o'r dynion hyn eu dal ar ôl methu sgan ar wrth gael eu derbyn.

**5.2.3** Mae eleni wedi bod yn her i'r holl staff a charcharorion fel ei gilydd, ond mae safonau gofal wedi parhau o safon uchel. Mae adroddiadau'r Bwrdd wedi nodi'r proffesiynoldeb a ddangoswyd gan y swyddogion sy'n gweithio yn y CSU.

**5.2.4** Nifer y carcharorion a oedd yn derbyn gofal asesu yn y ddalfa a dogfennau gwaith tîm (ACCT) yn yr uned yn ystod y cyfnod adrodd oedd 45. O'r rhain, roedd 25 o ddynion ar ACCT agored pan oeddent yn y CSU a daeth 20 yn destun ACCT tra oeddent yn y CSU. Ychydig o newid a fu yn y nifer hwn o'r adroddiad blaenorol.

**5.2.5** Roedd chwe deg tri o garcharorion BAME yn yr uned yn ystod y flwyddyn adrodd; roedd hyn 6 yn is na'r flwyddyn adrodd flaenorol lle roedd 69 o ddynion BAME yn yr uned.

**5.2.6** Roedd pum carcharor wedi'u caethiwo i'r uned am fwy na 42 diwrnod ac roedd tri wedi'u caethiwo am 84 diwrnod. O'r rhai a oedd wedi'u caethiwo am fwy nag 84 diwrnod, roedd un dyn yn aros i gael ei symud i uned seiciatrig (para 6.2.4) ac roedd un yn aros i gael ei drosglwyddo i garchar arall ar ôl dedfrydu.

**5.2.7** Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Bwrdd wedi cael trafferth monitro dyfarniadau mewnol oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol yn yr ystafell ddyfarnu. Byddem yn awgrymu bod hyn hefyd yn broblem i iechyd dynion a staff yr oedd gofyn iddynt fod yn yr ystafell hon. Cymerodd y carchar gamau i leihau ei ddefnydd drwy ganfod a oedd dynion yn pledio'n euog i gyhuddiad ac yn delio â nhw heb ddefnyddio'r ystafell ddyfarnu.

**5.2.8** Cafwyd 140 o atgyfeiriadau i'r dyfarnwr annibynnol (IA), yr ymdriniwyd â nhw drwy alwadau fideo. Cafodd 236 o ddiwrnodau ychwanegol eu rhoi, cafodd 14 o ddiwrnodau posibl eu gohirio am chwe mis ac roedd 27 o ddiwrnodau ychwanegol posibl.

## 5.3 Perthynas rhwng staff/carcharorion/dibynyddion, gweithwyr allweddol

**5.3.1** Mae'r Bwrdd bob amser wedi canmol y berthynas rhwng y staff a'r carcharwyr yng Ngharchar Caerdydd. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau sy'n ofynnol yn sgil y pandemig barhau, mae'n ymddangos bod hynny wedi rhoi straen ar rai o'r

perthnasoedd hyn. Ym mis Ebrill 2020, cynhaliodd y carchar arolwg ac i'r cwestiwn 'Rwy'n cael fy nhrin yn deg gan staff', roedd 73% o ddynion yn cytuno â'r datganiad hwn; yn arolwg y Bwrdd ym mis Ebrill 2021 dim ond 63% o ddynion oedd yn cytuno â'r datganiad. I'r cwestiwn 'Mae staff yn gofyn i mi sut ydw i'n ymdopi', roedd 66% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad yn 2020 ond dim ond 32% oedd yn cytuno yn arolwg bwrdd 2021. Yn olaf, dim ond 53% o ddynion oedd yn cytuno â'r datganiad 'Mae staff yr asgell yn fy helpu i ddatrys unrhyw broblemau sydd gen i' yn arolwg 2021. Roedd gwahaniaeth amlwg hefyd yn nifer y gweithwyr a'r dynion nad ydynt yn weithwyr sy'n cytuno â'r datganiad hwn, gyda 81% o'r gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a dim ond 37% o'r dynion nad ydynt yn weithwyr. Roedd y dyfyniadau'n amrywio o:

*'Rwy'n gofyn i staff yr asgell am rywbeth ac maen nhw'n dweud y byddant yn datrys y mater. Yna, does dim byd yn cael ei wneud am yr hyn y gofynnais amdano'*

i

*'Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o'r staff ar fy asgell wedi bod yn hollol anhygoel a bod angen iddynt gael clod a chydnabyddiaeth am y ffordd y maent wedi delio â'r sefyllfa. Maen nhw wedi bod yn wych ac yn barod i helpu'*

Er gwaethaf y pryderon hyn a godwyd yn arolwg y Bwrdd Monitro Annibynnol, dim ond tua 1% o gynnydd yn nifer y ceisiadau i'r Bwrdd yng nghyswllt staff rhwng 2019/2020 a 2020/2021.

**5.3.2** Roedd staff yn gweithio dan bwysau sylweddol yn ystod cyfnod prysuraf y pandemig. Ar 16 Tachwedd 2020, nodwyd bod gan 116 o aelodau o staff Covid-19, neu eu bod yn ynysu, ac er nad oedd y rhain i gyd yn swyddogion, gallai'r gostyngiad yn y staff fod wedi effeithio ar allu staff yr asgell i ddarparu cymorth.

**5.3.3** Roedd gwaith allweddol yn digwydd ar lefel llawer is yn ystod chwarter cyntaf y cyfnod adrodd, er ei fod yn unol â'r model cyflawni eithriadol ar gyfer gwaith allweddol. Yn ystod mis Medi 2020, dim ond tua 25% o'r boblogaeth oedd yn cael eu gweld bob wythnos, gyda'r ffocws ar y dynion mwyaf agored i niwed, ond erbyn mis Tachwedd ni chyrhaeddwyd y lefel is hon hyd yn oed oherwydd materion staffio yn ymwneud â Covid-19.

Yn yr arolwg o ddynion a gynhaliwyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2021, o'r 58 o ddynion a ymatebodd, roedd 49 naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae fy ngweithiwr allweddol yn fy ngweld bob wythnos', ac roedd 48 yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae cwrdd â fy ngweithiwr allweddol yn fy helpu'.

Caniataodd yr EDM ehangu'r gwaith allweddol o fis Mai ymlaen, pan oedd pob dyn unwaith eto wedi'i gynnwys yn y dyraniad wythnosol, ac erbyn mis Awst roedd canran y dynion a welwyd gan weithiwr allweddol wedi codi i 87%.

**5.3.4** Ni chynhaliwyd cyfarfodydd misol i gyn-filwyr er mwyn i'r dynion hyn gwrdd ag asiantaethau allanol yn ystod y flwyddyn adrodd hon, oherwydd y pandemig a'r drefn gyfyngedig. Fodd bynnag, treuliodd swyddog cyn-filwyr amser rheolaidd gyda'r naill a'r llall yn barhaus er mwyn cynnal y broses gyfathrebu honno a chyfeirio at y cymorth sydd ar gael.

**5.3.5** Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y carchar i gwrdd â chynrychiolwyr carcharorion mewn 'fforwm dynion' wythnosol. Roedd hyn yn galluogi'r dynion a'r sefydliad i drafod materion ac anawsterau. Un thema a gododd dro ar ôl tro oedd mynediad gwael at sianeli teledu mewn sawl asgell.

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**5.4.1** Mae pandemig Covid-19 yn anochel wedi effeithio ar reoli cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y carchar. Fodd bynnag, roedd y tîm gweithredu ar amrywiaeth a chydraddoldeb (DEAT) yn dal i gyfarfod yn ystod y rhan fwyaf o fisoedd, gyda'r Llywodraethwr neu'r Dirprwy Lywodraethwr yn bresennol ym mhob cyfarfod. Roedd swyddog amrywiaeth a chynhwysiant y carchar yn dal yn swydd ran amser yn 2020 ac, er bod y swyddog yn gweithio mewn modd cydwybodol, roedd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael yn effeithio ar yr hyn y gellid ei gyflawni. Datblygiad i'w groesawu oedd swydd amser llawn yn dychwelyd ar sail rhannu swydd ym mis Ionawr.

**5.4.2** Roedd grwpiau ffocws a phenodi cynrychiolwyr carcharorion wedi rhoi'r gorau i weithredu ar ddechrau'r cyfnod adrodd, ond cafodd grwpiau ffocws eu hailsefydlu o fis Hydref 2020 ymlaen ac roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal erbyn mis Chwefror 2021. Dechreuodd y gwaith hefyd i benodi cynrychiolwyr amrywiaeth carcharorion ym mis Tachwedd 2020.

**5.4.3** Cyflwynwyd ffigurau i grŵp DEAT yn ymwneud ag agweddau ar y carchar a oedd yn arbennig o berthnasol yn ystod y drefn gyfyngedig Covid-19. Roedd carcharorion BAME, gan gynnwys y rhai o gymunedau Teithwyr, Gwyddelig a chymunedau gwyn eraill nad ydynt yn Brydeinig, yn 20-22% o boblogaeth y carchardai. Roedd canran y carcharorion BAME ar lefel sylfaenol y cynllun cymhellion a breintiau haeddiannol yn cyd-fynd yn fras â phoblogaeth carchardai. Fodd bynnag, roedd carcharorion BAME yn llai tebygol o fod yn gweithio o'r gell, sef 10% o'r rheini a oedd yn gweithio o'r gell ym mis Rhagfyr 2020, er bod hyn wedi cynyddu i 16% erbyn mis Mehefin 2021. Wrth i gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau pwrpasol gael eu hailgyflwyno tua diwedd y cyfnod adrodd, credai carcharorion eu bod yn cael eu dyrannu i ddosbarthiadau addysg ar sail ad hoc. Dywedodd carcharorion yn aml eu bod yn cael eu cyfarwyddo neu eu hargymell gan swyddogion asgell, yn hytrach na mynd drwy broses ymgeisio safonol. Roedd grŵp o garcharorion BAME y siaradwyd â nhw yn credu'n gryf bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn carcharorion o leiafrifoedd ethnig.

**5.4.4** Parhaodd y carchar i gategoreiddio carcharorion BAME fel rhai peryglus ar sail anghymesur. Canran gyfartalog y carcharorion BAME a oedd yn ymddangos ar restrau misol o garcharorion peryglus oedd 32%.

**5.4.5** Roedd digwyddiadau o ddefnyddio grym ar garcharorion BAME yn cyd-fynd yn gyffredinol â phoblogaeth gyffredinol y carchardai. Roedd canran y carcharorion o gefndir Caribïaidd neu hil gymysg y defnyddiwyd grym gyda nhw yn parhau yn anghymesur â chyfansoddiad poblogaeth y carchar; roedd y carcharorion hyn yn cyfrif am tua 3% o boblogaeth y carchar ond roeddent yn cyfrif am 9% o'r achosion o ddefnyddio grym. Roedd data hefyd yn dangos pryder ynghylch pa mor aml y

defnyddir grym ar garcharorion ifanc. Roedd carcharorion 18-21 oed yn cyfrif am 6% o boblogaeth y carchardai yn y cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020 ond roeddent yn cyfrif am 14% o'r defnydd o rym: er y byddai cyfran o'r rhain dim ond yn golygu defnyddio ystafelloedd aros. Mae'r Bwrdd wedi tynnu sylw at dueddiadau o'r fath yn ei dri adroddiad blynyddol blaenorol. Derbynnir, wrth ddelio â niferoedd cymharol fach, y gall anghysonderau effeithio ar ystadegau misol unigol, ond mae'r tueddiadau hyn wedi bod yn gyson dros bedair blynedd.

**5.4.6** Roedd lefel y ffurflenni cofnodi digwyddiadau gwahaniaethu (DIRF) a gyflwynwyd yn isel iawn. Dim ond un DIRF gafodd ei ymchwilio rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2021. Ymdriniwyd â dwy ffurflen DIRF arall a gyflwynwyd fel ffurflenni Comp 1 (cwyn ffurfiol gyffredinol). Mae'n ymddangos yn annhebygol bod hyn yn adlewyrchu achosion tybiedig o wahaniaethu yn y carchar o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

**5.4.7** Cafodd carcharorion hŷn eu cefnogi a'u trin ag ystyriaeth briodol. Roedd adeiladau'r carchar yn dal i osod cyfyngiadau llym ar garcharorion ag anabledd corfforol. Roedd ardaloedd cyfan o'r carchar, fel y brif gyfres o ystafelloedd addysg, yn anhygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Hyd yn oed wrth aros yn eu hesgyll, roedd carcharorion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i gawodydd a mynd drwy ddrysau cell gul. Croesawyd y newyddion bod gwaith wedi'i gymeradwyo erbyn hyn i adnewyddu asgell F, gan gynnwys addasiadau ar gyfer pobl anabl.

## 5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

**5.5.1** Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd y gaplaniaeth yn sicrhau eu bod ar gael ar yr esgyll tra'r oedd prydau bwyd yn cael eu gweini, felly roedd hyn yn galluogi dynion i siarad â nhw os oedd angen.

**5.5.2** Ailddechreuodd y gwasanaethau ym mis Gorffennaf 2021: roedd yr esgyll yn cael ymweliad ar rota bob pythefnos a darparwyd taflenni ar yr wythnosau nad oedd dynion yn bresennol yn bersonol.

**5.5.3** Roedd y gaplaniaeth yn defnyddio Knox TV, sianel deledu'r carchar, drwy recordio gwasanaethau ar gyfer y Pasg, y Nadolig ac Eid. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd gwasanaeth awyr agored ar gyfer Eid ar gae pêl-droed y sefydliad.

**5.5.4** Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, llwyddodd 24 o ddynion i gael mynediad i angladdau drwy Zoom. Er bod presenoldeb wyneb yn wyneb mewn angladdau wedi ailddechrau, mae'r gaplaniaeth yn gobeithio parhau i ddefnyddio Zoom i ganiatáu i ddynion fynd i angladdau perthnasau nad oes ganddynt berthynas agos â'i gilydd.

## 5.6 Cwynion

**5.6.1** Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Bwrdd wedi bod yn ymwybodol bod oedi wedi bod wrth ymateb i gwynion a'r gallu i weinyddu'r system. Ddechrau mis Rhagfyr 2020, cysylltodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO) â'r Bwrdd gan fod teulu carcharor wedi cwyno wrtho nad oedd unrhyw ffurflenni cwyno ar yr asgell.

Ymddengys mai'r rheswm am hyn oedd diffyg staff yn y ganolfan fusnes yn sgil salwch a gwyliau. Roedd hefyd yn golygu nad oedd blychau cwynion wedi cael eu hagor ar gyfer y cyfnod hwn.

**5.6.2** Mae'n ymddangos i'r Bwrdd fod diffyg cadernid o ran staffio'r ganolfan fusnes os bydd gwyliau a salwch annisgwyl yn gwneud y systemau'n arafach.

# 6. Iechyd a lles

## 6.1 Gofal iechyd corfforol

**6.1.1** Mae'n ymddangos i'r Bwrdd fod llawer o ffocws gwaith gofal iechyd yn ystod y flwyddyn adrodd hon yn ymwneud â Covid-19 a'i reoli. Yn ystod yr wythnos yn dechrau 1 Tachwedd 2020, cafodd CEM Caerdydd ei ddynodi'n safle brigiad o achosion Covid-19. Yn ystod mis Rhagfyr 2020, cynhaliwyd profion torfol ar wahanol esgyll yn y sefydliad. Ym mis Ionawr 2021, yn dilyn ceisiadau gan sefydliadau i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am adnoddau ychwanegol, dechreuodd staff gofal iechyd brofi dynion ar y diwrnod cyntaf y cawsant eu derbyn yng Ngharchar Caerdydd a phum niwrnod yn ddiweddarach. O fis Ebrill 2021 ymlaen, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, dechreuodd y broses o gyflwyno brechiadau i ddynion.

**6.1.2** Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae 283 o ddynion wedi cael canlyniad positif, er bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi cael canlyniad positif wrth gael eu derbyn. Yn anffodus, bu farw un dyn yn ystod y cyfnod hwn, ac er nad oes cwest wedi'i gynnal hyd yma, credir mai clefyd niwmonitis Covid-19 oedd achos ei farwolaeth. Roedd wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty i gael triniaeth.

**6.1.3** Erbyn diwedd mis Awst 2021, dim ond 21% o ddynion oedd wedi gwrthod brechiadau. Gwnaed ymdrech fawr gan staff gofal iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r adran addysg i sicrhau bod dynion yn cael y ffeithiau am frechiadau. Erbyn diwedd mis Awst a dechrau mis Medi 2021, roedd 70% o'r dynion a oedd yn y ddalfa yng Ngharchar Caerdydd bryd hynny wedi cael o leiaf un dos o'r brechlyn a 44% wedi cael eu brechu'n llawn.

**6.1.4** Am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd, roedd staff llawn yn y maes gofal iechyd, felly roeddent yn gallu ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol hwn. Yn adroddiad y llynedd mynegodd y Bwrdd bryder mai dim ond dros dro yr oedd y cyfarwyddwr clinigol wedi cael ei benodi a dim ond hanner diwrnod yr wythnos y gallai fynd i'r carchar. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella erbyn hyn. Mae cyfarwyddwr clinigol dros dro newydd wedi cael ei benodi ac mae'n gallu rhoi ei amser i Garchar Ei Mawrhydi Caerdydd yn hytrach na chael ei rannu dros nifer o wasanaethau, gall fynd i'r carchar am ddiwrnod yr wythnos. Yn anffodus, nid oedd y cynnydd i aelodau staff yn cynnwys y fferyllfa, sy'n dal i gael trafferth dod o hyd i ofal yn ystod cyfnodau o absenoldeb neu salwch ac nid yw'n gallu bwrw ymlaen â chynlluniau datblygu.

**6.1.5** Mae gan y cyfarwyddwr clinigol bryderon bod angen mwy o oriau meddygon teulu i ddiwallu anghenion y dynion yng Ngharchar Caerdydd yn ddigonol. Drwy gydol 2020-2021, roedd clinigau meddygon teulu yn dal i weithio ond roedd llai o apwyntiadau. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella'n raddol yn ystod 2021. Yn ystod yr un cyfnod, gostyngwyd clinigau deintyddol i apwyntiadau brys yn unig, a chafodd apwyntiadau gyda'r optegydd eu hatal yn llwyr. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella, ac mae apwyntiadau deintyddol brys yn cael eu cynnig ar hyn o bryd, ac fe wnaeth apwyntiadau optegwyr ailddechrau ym mis Ebrill 2021.

**6.1.6** Yr amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd yw: Meddygon teulu ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys - 23 diwrnod: gellir gweld achosion brys o fewn diwrnod; apwyntiadau deintyddol brys - chwe diwrnod, er y gellir trin symptomau wrth aros am apwyntiadau. Nid yw apwyntiadau rheolaidd yn cael eu cynnig ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn deall bod trafodaethau'n cael eu

cynnal ar y trefniadau cytundebol hyn. Roedd yr amser aros ar gyfer apwyntiadau'r optegydd yn 91 diwrnod – roedd yr amser aros hir hwn yn broblemus i rai dynion a oedd yn treulio cyfnodau hir mewn celloedd.

*'Alla i ddim gweld optegydd a dwi i fod i wisgo sbectol drwy'r amser felly dwi'n cael cur pen, alla i ddim gwylio'r teledu'*

**6.1.7** Yn yr arolwg a gynhaliwyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2021, roedd 55% o'r ymatebwyr yn teimlo y gellid trefnu apwyntiadau meddygol, er bod eraill yn teimlo bod anawsterau:

*'Roedd hi'n anodd cael apwyntiad i weld Meddyg, fe wnes i aros 4 wythnos gyda haint ar fy nhroed'*

**6.1.8** Yn ystod y flwyddyn adrodd, cafwyd dau adroddiad PPO ar farwolaethau yn y ddalfa a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd y ddau yn nodi fod lefel y gofal a dderbynnir yng Ngharchar Caerdydd yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir yn y gymuned. Mewn un adroddiad penodol, roedd yr adolygydd clinigol yn 'canmol staff gofal iechyd am y gofal a roddwyd i Mr ** mewn amgylchiadau anodd.'

**6.1.9** Roedd ceisiadau i'r Bwrdd yng nghyswllt gofal iechyd yn dal yn uchel ar 17% o'r holl geisiadau a gafwyd.

## 6.2 Gofal iechyd meddwl

**6.2.1** Yn yr un modd â gofal iechyd yn gyffredinol, mae lefelau staffio iechyd meddwl wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn adrodd: yn ystod y flwyddyn cafodd y rhan fwyaf o swyddi eu llenwi neu roeddent ar fin cael eu llenwi. Mae hyn wedi golygu bod y tîm wedi gallu dechrau mynd i'r uned cohort dros dro neu'r asgell gynefino ddwywaith yr wythnos i ymgymryd â phroses sgrinio iechyd eilaidd. Ers mis Gorffennaf 2021, mae presenoldeb ym maes iechyd meddwl wedi bod yn y carchar chwe diwrnod yr wythnos.

**6.2.2** Ar gyfartaledd, cafodd y tîm iechyd meddwl 150 o atgyfeiriadau y mis. Mae'r tîm iechyd meddwl yn dweud bod atgyfeiriadau cychwynnol yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod ar y mwyaf, er bod y rhan fwyaf yn cael eu gweld o fewn 20 diwrnod a gellir gweld atgyfeiriadau brys o fewn pedair awr. Ar gyfartaledd, cafwyd 20 atgyfeiriad y mis i'r seiciatrydd ymgynghorol. Yr amser aros i gael eich gweld yn y clinig ADHD oedd 12 wythnos. Fodd bynnag, oherwydd y trosiant uchel o ddynion yng Ngharchar Caerdydd, efallai y bydd dynion yn cael eu rhyddhau cyn eu hapwyntiad. Os byddant wedyn yn cael eu rhoi ar remand eto neu eu dedfrydu o fewn y cyfnod hwnnw o 12 wythnos, nid ydynt yn mynd i ddiwedd y rhestr aros, cânt eu hychwanegu i'r safle yr oeddent wedi gadael rhestr y seiciatrydd.

6.2.3 Yn yr arolwg a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021, roedd 69% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu hiechyd meddwl yn dioddef yn ystod y cyfnod hwn. O'r ymatebwyr, roedd ychydig dros hanner yn credu y gellid trefnu apwyntiadau iechyd meddwl. Yn gadarnhaol, ym mis Mehefin 2021 cynhaliodd y rhwydwaith ansawdd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai adolygiad a chyfweld dynion a oedd yn cael cymorth gan y tîm iechyd meddwl ar hyn o bryd.

*'Mae'r holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw a'u holi yn dweud yn hyderus eu bod yn teimlo bod aelodau o staff yn gwrando arnynt ac yn eu deall.'*

ac yn bwysig iawn

‘*Roedd cleifion yn sôn bod y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol ers 2019 ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin â thosturi, urddas a pharch*.’

**6.2.4** Yn ystod y cyfnod adrodd, mae 32 o ddynion wedi cael eu trosglwyddo i unedau seiciatrig: cynnydd mawr ar y 19 a drosglwyddwyd yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Roedd yr amseroedd aros ar gyfer trosglwyddiadau’n amrywio, a’r hiraf o 27 Awst 2020 ymlaen, pan nodwyd yr angen, i 27 Chwefror 2021 pan symudwyd y dyn. Yn ystod llawer o’r cyfnod hwn roedd yn cael ei ddal yn y CSU ond yn ystod rhan olaf y cyfnod o aros am wely mewn ysbyty, cafodd ei drosglwyddo i’r uned gofal iechyd a oedd yn gallu ei baratoi ar gyfer y broses drosglwyddo. Cafodd y Bwrdd wybod bod yr oedi hir hwn yn waeth yn sgil yr achosion o Covid-19, y ffaith bod y dyn dan sylw yn dod o Loegr (a effeithiodd ar y trafodaethau rhwng y carchar a’r awdurdodau iechyd), a bod yr angen am leoliad diogelwch uchel hefyd wedi ychwanegu at yr oedi.

### 6.3 Ymarfer corff, amser allan o’r gell, campfa

**6.3.1** Ar ddechrau’r cyfnod adrodd, roedd dynion yn cael 45 munud allan o’u cell yn y bore a’r prynhawn. Cafodd hyn ei gwtogi weithiau pan oedd angen tair system wahanol ar asgell i ddelio â dynion a oedd wedi cael canlyniad Covid-19 positif, y rheini a oedd yn dangos symptomau ac yn hunanynysu a’r rheini nad oedd yn gorfod ynysu.

**6.3.2** Er gwaethaf hyn, dywedodd y rhan fwyaf o ddynion eu bod yn gallu cael cawod, gwneud galwad ffôn a gwneud ymarfer corff; er y tynnwyd sylw’r bwrdd at y canlynol

*‘Mae gennym ddewis rhwng ffonio anwyliaid neu gael cawod yn y bore, ac yn y prynhawn mae gennym ddewis rhwng cael cawod neu ymarfer corff’*

**6.3.3** Ym mis Gorffennaf 2021, cafodd yr amser allan o’r gell ei gynyddu i awr yn y bore a’r prynhawn.

**6.3.4** Roedd argaeledd campfa dan do yn amrywio yn ystod y gaeaf, yn dibynnu ar lefel yr haint Covid-19 yn y gymuned ac yn y carchar. Cafodd ei hagor o’r diwedd ym mis Mawrth 2021, ar gyfer niferoedd cyfyngedig. Cyn hyn, roedd sesiynau yn y gampfa yn cael eu cynnal yn yr awyr agored.

### 6.4 Adsefydlu oherwydd cyffuriau ac alcohol

**6.4.1** Drwy gydol cyfnod y flwyddyn adrodd, mae Dyfodol, yr asiantaeth cymorth cyffuriau, wedi bod yn gweithio gyda’r dynion: i ddechrau drwy gynnig taflenni gwaith i’r dynion hynny sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol. Dechreuodd y tîm weithio wyneb yn wyneb ym mis Hydref 2020; yn ystod y flwyddyn adrodd, aeth hyn rhagddo i ailddechrau gwaith grŵp.

# 7. Cynnydd ac ailsefydlu

## 7.1 Addysg, llyfrgell

**7.1.1** Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd y gwaith o redeg dosbarthiadau addysg a hyfforddiant wedi'i gyfyngu i sicrhau bod protocolau Covid-19 yn cael eu dilyn. Ar ddechrau'r cyfnod adrodd roedd CEM Caerdydd yng ngham 4 y gyfundrefn Covid, ac erbyn y diwedd roedd yng ngham 2.

**7.1.2** Roedd dyddiadau agor ar gyfer addysg a gweithdai wedi'u trefnu ond roeddent yn dibynnu ar ofynion iechyd a diogelwch Covid-19 a oedd angen lle ychwanegol i helpu i gadw pellter cymdeithasol.

**7.1.3** Cafodd y Bwrdd wybod bod cyllid hyfforddi ar gyfer 2021 yn cael ei gefnogi gan arbedion a wnaethpwyd y llynedd 2020 a'i fod yn cael ei gario ymlaen i eleni.

**7.1.4** Ym mis Ebrill 2021, roedd yr adran addysg yn gallu ailddechrau asesiadau addysgol ar gyfer dynion a rhedeg rhai dosbarthiadau cyfyngedig. Cafodd y dynion a oedd yn bresennol eu rhoi ar un o ddwy asgell gyda mynediad uniongyrchol i'r adran addysg er mwyn osgoi'r siawns o groes-heintio wrth i garcharorion symud. Dyma'r cyrsiau a oedd ar gael ar y pryd:

> Offer ar gyfer Newid yn rhedeg pum wythnos ar gyfer uchafswm o bum person
>
> Celf a dylunio, a oedd yn cynnwys llythrennedd creadigol. Mae'r grŵp hwn hefyd wedi llunio llyfryn ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd
>
> Saesneg fel ail iaith (ESOL) a ddechreuodd lunio llyfryn rhifedd a llythrennedd

Roedd y cyrsiau'n cael eu cynnal yn y bore a'r prynhawn.

**7.1.5** Yn ystod chwarter cyntaf y cyfnod adrodd, mis Medi i fis Rhagfyr 2020, roedd 10 o ddysgwyr o bell: Roedd 8 o'r rhain wedi cofrestru ar y Brifysgol Agored; ac roedd dau wedi cofrestru gydag Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharorion (PET). Penodwyd dau swyddog fel cyswllt rhwng yr ardaloedd preswyl a Dysgu a Sgiliau.

**7.1.6** Roedd Knox TV yn rhedeg sianel newyddion ac addysg; bwriedir i hyn gael ei redeg gan y carcharorion eu hunain. Roedd pecynnau tynnu sylw a llyfrau gwaith Offer Addasol ar gyfer Newid yn dal i gael eu darparu.

**7.1.7** Roedd y dosbarthiadau yn y carchar yn dilyn protocolau Covid-19 yn llym. Ni chafodd neb adael yr ystafell, i fynd i'r toiled na chael diod. Arweiniodd hyn at drefn addysgu fwy effeithlon, gyda llai o ymyriadau.

**7.1.8** Mae'r llyfrgell wedi bod yn weithredol drwy gydol y cyfnod adrodd, er bod lefelau staffio oherwydd Covid-19 wedi effeithio ar ei gweithrediad ar brydiau. Aethpwyd â llyfrau i'r esgyll yn hytrach na chael y dynion i ddod i'r llyfrgell.

## 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

**7.2.1** Roedd cyfyngiadau Covid-19 yn dal yn rhwystr mawr i gyflogaeth arferol a hyfforddiant galwedigaethol drwy gydol y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, roedd camau trefn Covid-19 wedi gwella, o gam pedwar ar ddechrau'r cyfnod, i gam dau ar y diwedd.

**7.2.2** Roedd gwasanaethau hanfodol mewn carchardai – ceginau, rheoli gwastraff, golchi dillad a gwaith pacio brecwast – ar waith. Y meysydd eraill a oedd yn darparu gwaith oedd: siop argraffu/arwyddion, siopau ffreutur, parti gwaith a nwyddau swyddfa. Ar esgyll y carchar, roedd glanhawyr, cynrychiolwyr cymunedau mwy diogel, hyrwyddwyr gwedduster a chymheiriaid asgell yn gweithio. Roedd proses oruchwylio'r gweithdai'n parhau gyda lefelau priodol o hyfforddwyr, ac yn y rhan fwyaf o achosion, cynyddodd lefelau staff oherwydd y gweithdai agored cyfyngedig.

**7.2.4** Rhoddodd yr hyb gweithgareddau wybod i'r Bwrdd am y dyraniad cyfartalog a'r gwir oriau presenoldeb ar gyfer gweithgareddau hanfodol rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020.

| Trefnwyd am | Mynychwyd am | Trefnwyd pm | Mynychwyd pm | |
|---|---|---|---|---|
| 1274 | 1073 | 924 | 725 | Diwydiannau |
| 4174 | 4132 | 3792 | 3743 | Arall |
| 5471 | 5224 | 4739 | 4486 | Cyfanswm |

| Cyfanswm a Drefnwyd | Cyfanswm a Fynychwyd |
|---|---|
| 10,695 | 9,225 |

Roedd lleoedd ar gyfer gweithgareddau pwrpasol wedi cynyddu o 221 ddechrau mis Medi 2020 i 265 erbyn diwedd mis Awst 2021.

Yn gyffredinol, y presenoldeb misol oedd 86.26%. Roedd ffactorau fel prinder staff, hyfforddiant a goruchwyliaeth, apwyntiadau gofal iechyd, ymweliadau porffor wedi'u trefnu ac ymddangosiadau llys wedi'u trefnu yn effeithio ar y gwahaniaeth rhwng y llefydd a drefnwyd a'r llefydd a fynychwyd.

**7.2.5** Gwelwyd bod y gweithdai hanfodol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd wedi lleihau nifer y gweithwyr cyflogedig. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ac roedd yn golygu bod gweithdai'n gorfod dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon o weithio; roedd hyn yn caniatáu i'r un allbwn ddefnyddio llai na hanner y niferoedd gwreiddiol oedd eu hangen yn flaenorol i gynnal rhai gweithdai. Nid yw hyn wedi helpu'r angen i ddod o hyd i lety pwrpasol i garcharorion. Mae hyn yn peri pryder i'r Bwrdd gan ei bod yn amlwg yn arolwg 2021 bod gan ddynion mewn cyflogaeth ddarlun mwy cadarnhaol o'u profiad yng Ngharchar Caerdydd yn ystod y cyfnod hwn.

**7.2.6** Mae'r adran addysg a hyfforddiant wedi parhau i gynllunio ar gyfer agor rhagor o weithdai a hyfforddiant, ac mae pob un ohonynt yn dibynnu ar Covid-19. Mae'r cyrsiau newydd posibl sydd ar y gweill yn cynnwys adeiladu, yn enwedig cwrs leinio sych. Bydd hyn yn cael ei gynnal gyda chefnogaeth gan y diwydiant a chymorth gan Gyngor Caerdydd a grantiau Cymru'n Gweithio. Bydd Sefydliad Prydeinig y Gwyddorau Glanhau (BICSc) yn parhau i ddarparu hyfforddiant achrededig. Mae'r gweithdy amlgyfrwng wedi'i gynllunio i esblygu'n sianel cymorth teledu. Y gobaith yw y bydd y siop brintio yn datblygu'n fenter gymdeithasol ar y cyd â charchardai Parc a Brynbuga/Prescoed.

Yn anffodus, mae cyrsiau Gwaith Stryd a Network Rail wrthi'n cael eu hadolygu, a dim ond carfan fach y mae'r olaf o'r rhain yn gallu ei chefnogi, oherwydd y gofynion llym ar unigolion. Nid yw'r gweithdy cerbydau'n cael ei ystyried yn ymarferol mwyach.

## 7.3 Rheoli troseddwyr a'u cynnydd

**7.3.1** Roedd gwrandawiadau parôl yn parhau bob wythnos gan ddefnyddio 'ystafell parôl rhithwir'. Mae hon yn ffordd newydd o weithio sydd wedi galluogi'r dynion i gael cyswllt fideo o'r gliniaduron parôl newydd i'r bwrdd parôl. Cafwyd adborth da gan ddynion a staff. Bu ôl-groniad mawr o wrandawiadau oherwydd cyfnod y cyfyngiadau symud ac mae'r carchar, ar adegau, wedi bod yn cynnal tri gwrandawiad y dydd.

**7.3.2** Ym mis Tachwedd 2020, aeth proses cyrffyw cadw yn y cartref digidol newydd (HDC) yn fyw. Yn yr wythnosau cynnar ar ôl ei gyflwyno, codwyd nifer o faterion, gyda rhai ohonynt yn golygu bod rhai dynion nad oeddent yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth prawf yn colli eu ceisiadau am dai yn y system. Roedd yn ymddangos bod hyn wedi cael ei ddatrys erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

**7.3.3** Dechreuwyd cynllun peilot gwybodaeth mechnïaeth newydd gyda chydweithwyr mechnïaeth yn cael eu hadnabod yn yr RCU. Cafodd dynion eu cyfweld yn nyddiau cynnar eu cystodaeth i weld a oeddent yn dymuno gwneud cais am fechnïaeth. Yn anffodus, erbyn mis Tachwedd, oherwydd yr achosion diweddaraf o Covid-19, bu'n rhaid i'r carchar roi'r gwaith mechnïaeth o'r neilltu tra ymdriniwyd â'r achosion diweddaraf. Ar ôl i'r cynllun peilot gael ei roi ar waith eto, penderfynwyd ymestyn ei gyfnod am chwe mis arall i sicrhau bod y gwaith cychwynnol yn cael ei ganiatáu.

**7.3.4** Ym mis Rhagfyr 2020, roedd y carchar yn dal 26 o ddynion am oes neu garchar er diogelwch y cyhoedd. Mae'r carchar wedi ein sicrhau pan fydd cyfle'n agor i alluogi trosglwyddo i leoliad mwy addas, y bydd y dynion hyn yn cael eu trosglwyddo ar unwaith. Erbyn mis Awst 2021, roedd y nifer wedi gostwng i 11, gyda dau o'r rheini wedi cwblhau gwrandawiadau parôl.

## 7.4 Cyswllt teulu

**7.4.1** Am ran fawr o'r flwyddyn adrodd, ni chaniatawyd ymweliadau cymdeithasol, a phan wnaethant ailddechrau, nid oeddent yn boblogaidd. Roedd hyn yn rhannol gan fod yn rhaid i'r ddau barti wisgo masg a chadw pellter cymdeithasol, a oedd yn

golygu ei bod yn anodd clywed a chael eich clywed. Hefyd, nid oedd llawer o aelodau'r teulu'n awyddus i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ystod cyfnod clo. Prysurodd y broses o archebu ymweliadau cymdeithasol eto ar ôl caniatáu cyswllt, ar yr amod bod y ddau barti yn cytuno i brawf Covid-19 a oedd yn arwain at ganlyniad negyddol.

O ganlyniad i'r uchod, roedd Ymweliadau Porffor (fideo) yn fwy poblogaidd, ac er bod rhai problemau technegol cychwynnol o ran eu sefydlu a bod teulu a ffrindiau'n cofrestru i'w defnyddio, roedd hon yn broses arloesol a phoblogaidd, ac mae galw iddynt aros yn opsiwn, hyd yn oed ar ôl y cyfyngiadau symud.

O'r arolwg a gynhaliwyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2021, dim ond 56% o ddynion oedd yn cytuno ei bod yn hawdd trefnu Ymweliad Porffor i weld eu teulu.

Dangosodd galwadau ar hap a wnaethpwyd gan aelodau'r Bwrdd fod problemau gyda'r llinell archebu i ymwelwyr. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2020, mewn wythnos ar dri diwrnod gwahanol, bu'r ffôn yn canu heb gael ei ateb am hyd at 40 caniad. Ar un achlysur, roedd peiriant ateb ar waith, ond nid oedd ar gael i dderbyn galwadau ac nid oedd yn derbyn negeseuon.

Ym mis Gorffennaf 2021, cafwyd adborth cadarnhaol gan ymwelwyr ynghylch sut roeddent yn cael eu trin gan staff ac roedd yn ymddangos bod y llinell archebu dros y ffôn yn gweithio'n dda.

**7.4.2** Drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, roedd yr adran dysgu a sgiliau yn rhoi mynediad i ddynion at y gwasanaeth negeseuon digidol i'w galluogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Cafodd tua 100 o DVDs eu hanfon at blant a theuluoedd dynion rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020.

**7.4.3** Yn yr arolwg o ddynion a gynhaliwyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2021, roedd 59% o ddynion yn cytuno â'r datganiad 'roedd hi'n hawdd gwneud galwad ffôn bob dydd'. Roedd y drefn gyfyngedig yn ystod y cyfnod clo yn golygu bod rhai dynion yn teimlo ei fod yn ddewis amlwg rhwng cael cawod, ymarfer corff a ffonio anwyliaid.

### 7.5 Cynllunio ailsefydlu

**7.5.1** Mae cais yn cael ei baratoi gyda'r nod o sicrhau cyllid i gefnogi hyfforddiant carcharorion a chyflogaeth drwy'r giât. Y nod yw adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd cyn Covid ar y cwrs Paratoi at Waith. Mae'r cais ar y cyd â phartneriaid, megis Cymru'n Gweithio/yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Prifysgol De Cymru, Prosiect Chase, Carchar EM Brynbuga/Prescoed a'r tîm camddefnyddio sylweddau.

**7.5.2** Parhaodd y cyfleuster i agor cyfrif banc yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, gydag
19 o gyfrifon yn cael eu hagor i ddynion ym mis Hydref 2020, 14 ym mis Mawrth 2021, a 10 arall ym mis Ebrill.

**7.5.3** Ym mis Hydref 2020, roedd y tîm adsefydlu wedi cynyddu lefel y cyswllt wyneb yn wyneb â dynion. Roedd ganddynt yr holl gyfarpar diogelu personol, a gosodwyd sgriniau persbecs ar yr RCU, er mwyn gallu cysylltu'n agosach a sicrhau bod y

mesurau diogelu’n cael eu cynnal ar yr un pryd. Nid oedd y sgriniau’n addas i’r pwrpas, fodd bynnag, ac yn lle hynny sicrhaodd y tîm ddefnydd o’r ystafell gynefino yn yr RCU i gyfweld dynion. Roedd yr ystafell hon yn ddigon mawr i ganiatáu cynnal cyfweliad cadw pellter cymdeithasol gan ddarparu preifatrwydd ar yr un pryd. Erbyn mis Rhagfyr 2020, dychwelodd y tîm i beidio â chynnal cyswllt wyneb yn wyneb oherwydd y cynnydd yn lefelau Covid-19 yn y sefydliad.

Erbyn diwedd mis Ebrill 2021, pan nad oedd y sefydliad yn cael ei ystyried fel safle o achosion brig, ailgyflwynodd tîm CRC (St Giles) gyswllt wyneb yn wyneb, a llwyddodd y tîm i ddychwelyd i weithio’n llawn amser gan weld dim ond dynion a oedd wedi cael canlyniad negatif ar ôl cael eu derbyn.

Ni chafwyd unrhyw atgyfeiriadau ‘cwrdd wrth y giât’ drwy gydol y cyfnod adrodd gydag atgyfeiriadau’n cael eu derbyn dros y ffôn yn unig.

Cafodd cyfarfodydd partneriaeth ag asiantaethau cymorth ailsefydlu eu hatal drwy gydol y cyfnod. Cynhaliwyd cyswllt â’r Adran Gwaith a Phensiynau, Tai, TTG, Cyswllt Carchardai ac asiantaethau eraill dros y ffôn, a dywedodd tîm St Giles, er gwaethaf hyn, fod y broses yn gweithio’n dda.

Cafodd model adsefydlu newydd ei roi ar waith ar 26 Mehefin 2021, lle cafodd staff St Giles eu contractio o dan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd rhai materion cychwynnol yn ymwneud ag eglurder rolau a chyfrifoldebau, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr y prosiect i fynd i’r afael â’r rhain.

**7.5.4** O ganlyniad i fesurau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru, cafodd yr holl garcharorion a oedd yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau yn ystod cyfnod cyfyngiadau Covid-19 gynnig llety ar ôl cael eu rhyddhau. Mae awdurdodau lleol yn cael pythefnos o rybudd pan mae unrhyw ddynion posibl heb unrhyw gartref sefydlog yn cael eu rhyddhau. Nid yw’n syndod mai anghenion tai oedd yr angen blaenoriaeth uchaf a nodwyd o hyd, a deliwyd â 161 o achosion ym mis Medi a 145 ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y cyfraddau hyn wedi aros yn weddol gyson yn ystod y misoedd canlynol, gyda 175 o achosion ym mis Mawrth a 112 ym mis Ebrill 2021.

**7.5.5** Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal cyllid i gefnogi pobl ddigartref i gael llety tan fis Ebrill 2022. Yn anffodus, mae prinder tai o hyd mewn rhai ardaloedd sy’n cael effaith andwyol ar y siawns y bydd dynion yn cael cynnig llety.

# Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymell | 14 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 13 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 12 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 164 |
| Cyfanswm yr adolygiadau cadw ar wahân a fynychwyd | 11 |

**Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol**

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol | Blwyddyn adrodd bresennol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | **26** | **36** |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, IEP, sancsiynau | **6** | **10** |
| C | Cydraddoldeb | **4** | **6** |
| D | Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, y llyfrgell, trefn, amser y tu allan i'r gell | **27** | **38** |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | **34** | **43** |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | **17** | **21** |
| F | Bwyd a cheginau | **5** | **8** |
| G | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol | **98** | **83** |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad hwn | **8** | **26** |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn sefydliad neu leoliad arall | **17** | **14** |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au) | **20** | **23** |
| I | Rheoli dedfrydau, gan gynnwys HDC, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio | **42** | **26** |
| J | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio | **61** | **65** |
| K | Trosglwyddiadau | **28** | **22** |
| L | Amrywiol, gan gynnwys y system gwyno | **112** | **44** |
| | Cyfanswm y ceisiadau | **505** | **465** |

OGL

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk.